PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 5 GORFFENNAF 2016

Yn bressenol: Cynghorydd Howells(Caedeirydd)

Y Cynghorwyr Hunt, Murphy, Thomas a/ac Walker

12 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr Goddard a Sanders

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol wrth i'r eitem fusnes berthnasol agor.

14 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2016 fel cofnod cywir.

15 : CORPORATE ASSET MANAGEMENT PLAN

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Helen Jones, Pennaeth Ystadau Strategol

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i Aelodau fod gan y Pwyllgor gyfle i ystyried Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol arfaethedig y Cyngor, a rhoi barn i'r Cabinet cyn ystyried y Cynllun fis yma. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried dull y Cyngor o ymdrin ag eiddo anweithredol ar 3 Tachwedd 2015 a bod hwn yn gyfle i wneud gwaith craffu cyn y penderfyniad ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor o ran cefnogi a buddsoddi yn yr Ystâd i graffu arni cyn y penderfyniad.

Cafodd y Pwyllgor fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad fel yr Aelod Cabinet â chyfrifoldebau dros Eiddo Gweithredol.

Eglurodd y Cynghorydd Hinchey fod gweithgarwch ar Eiddo Gweithredol wedi bod yn arbennig o uchel, gyda gostyngiad yn yr Ystâd. Roedd y gostyngiadau hyn yn cynnwys symud staff o Adeilad Global i Neuadd y Sir yn ogystal â fel rhan o'r agenda Adleoli Swyddfeydd. Gwnaethpwyd arbedion o £1m y llynedd gan gyflawni £6.8m drwy Dderbynebau Cyfalaf. Roedd moderneiddio adnoddau'r Cyngor yn hanfodol i gefnogi'r Agenda Newid, ynghyd â dibynnu ar waith partneriaeth.

Rhoddodd Helen Jones gyflwyniad i'r Pwyllgor a amlinellodd y canlynol:

Cafodd y Pwyllgor wybod bod Moderneiddio Asedau'r Cyngor ar waith i sicrhau bod Ystâd y Cyngor yn addas at y diben. Roedd hefyd gyfle i ddatblygu ymhellach waith partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at Dudalen 6 y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol gan holi pa yrwyr oedd ar waith i gefnogi'r broses o gyflawni targedau. Mewn ymateb eglurodd y Swyddogion fod yr holl dargedau'n deillio o'r Uwchgynllun, dogfen a ddadansoddodd ac a asesodd anghenion eiddo. Y Bwrdd Rheoli Asedau ddelio â thargedau, yn ogystal â Grwpiau Gweithredol i'w hasesu i werthuso dyheadau i'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Cafodd yr Aelodau wybod fod ymdrech barhau i fod yn uchelgeisiol o ran targedau yn y maes hwn, gydag adnoddau'n cael eu cyfeirio at gyflawni. Cydnabuwyd na chyflawnwyd Costau Rhedeg o ran projectau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gan gynnwys yn Insole Court a Stadiwm Lecwydd. Roeddent yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Roedd Aelodau'n bryderus fod Derbynebau Cyfalaf yn cael eu lleihau'n araf a fod swm yr arian yn lleihau. Mewn ymateb, sicrhaodd y Swyddogion y Pwyllgor y byddai'r Rhaglen Derbynebau Cyfalaf dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cynyddu'n sylweddol yn bennaf o ganlyniad i'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion barhaus.

Roedd Aelodau o'r Pwyllgor yn awyddus i ddysgu beth oedd y cynigion i Neuadd y Sir yn y dyfodol. Eglurodd Swyddogion mai'r cynllun oedd gwneud y defnydd gorau posibl o Neuadd y Sir gan symud rhagor o staff yno o adeiladau amgen.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y mathau o adeiladau a oedd dan ystyriaeth fel rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol gan ofyn beth oedd y sefyllfa o ran Ysgolion Arbennig.

Roedd dyheadau hirdymor i'r dulliau adolygu ar gyfer yr Ystâd ar gyfer yr 21ain Ganrif ond nid oedd unrhyw beth penodol o ran ysgolion. Roedd hyn yn rhan o'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion a arweinir gan yr adran Addysg.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn siomedig fod cynllun trosglwyddo ased cymunedol arfaethedig yn nhŷ'r Gofalwr yn Ysgol Herbert Thompson heb lwyddo.

Nododd swyddogion y pryderon a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor o ran materion lleol a chytunwyd i ystyried sylwadau a chyngor gan Aelodau'r Ward wrth ddelio ag achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn y dyfodol.

Cafodd y Pwyllgor wybod y gallai rhai adeiladau y bwriedid eu trosglwyddo fod yn gymhleth. O ganlyniad i'r materion hyn câi swydd newydd ei chreu yn y maes hwn i gefnogi Projectau Cynllunio Ardaloedd Cymdogaeth.

Roedd sefydlu projectau Cynllunio Ardal Cymdogaethau'n hanfodol i fwrw ymlaen â dyheadau Trosglwyddo Asedau Cymunedol a datblygwyd gweithdy peilot yng Ngogledd Caerdydd a fyddai'n cynnwys rhagor o waith partneriaeth.

Croesawodd y Swyddogion adborth lleol a chyfraniad gwerthfawr Aelodau lleol wrth ddelio â Throsglwyddo Asedau Cymunedol.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi'i atodi)

## 16 : CORPORATE RISK REGISTER

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Ian Allwood, Pennaeth Cyllid
- Chris Pyke, Prif Archwilydd, Risg a Llywodraethu.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y byddai'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar ddiwedd blwyddyn 2015/16, a bod cyfle i ystyried y risgiau strategol sy'n wynebu'r Cyngor cyn i'r Cabinet ystyried. Y Gofrestr Risg Gorfforaethol oedd y cofnod allweddol o 'risgiau strategol sy'n cael effaith y tu hwnt i unrhyw wasanaetha a/neu sydd o'r fath arwyddocâd fel bod angen eu amlygu ar lefel gorfforaethol. Cafodd y gofrestr ei diweddaru a'i chyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli bob chwarter ac i'r Cabinet bob chwe mis.

Eglurodd y Cynghorydd Hinchey fod yr Uwch Dîm Rheoli o'r farn fod dwy risg wedi'u lleddfu'n ddigonol ar ddiwedd y flwyddyn:

- Paratoi Cynllun Datblygu Lleol a ystyriwyd yn gadarn gan yr Arolygydd o fewn yr amserlen arfaethedig. Roedd y risg wedi lleihau o Uchel i Isel.

- Sicrhau gweithrediad effeithiol Bwrdd Rheoli Asedau'r Cyngor i gyflawni trosolwg strategol effeithiol ac arbedion a nodwyd. Roedd y risg wedi lleihau o Uchel i Ganolig.

Cafodd y Pwyllgor siart a ddangosai'r materion ynghylch Rheoli Risg.

Cafodd y Pwyllgor wybod, ar ôl canlyniad Refferendwm yr UE fod yr Uwch Dîm Rheoli'n cadw brîff byw ar y Gofrestr Risgiau.

Cafodd Aelodau o'r Pwyllgor wybodaeth am weithredu Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, gan nodi cydymffurfiaeth yn risg. Eglurodd y swyddogion fod hwn yn gyfnod o newid a bod dulliau profi ar waith i ddwyn ymlaen ac asesu'r cynigion hyn o'r dechrau. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fodd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Roedd Offer Integreiddio hefyd yn cael ei sefydlu er mwyn bwrw ymlaen â hyn.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn bryderus gweld nad oedd y Consortiwm yn cyflawni gwasanaethau effeithiol a heriai ac a gefnogai Ysgolion Caerdydd.

At hynny, roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd costau Gwasanaethau Cymdeithasol yn lleihau.

Sicrhaodd swyddogion y Pwyllgor fod y Consortiwm yn effeithiol ar draws y rhanbarth a bodd proses hunanasesu fewnol ar waith ar lefel adrannol.

Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch dilyniant busnes, *'mae 71% o o'n gweithgareddau amser-gritigol (Coch) bellach â chynlluniau Dilyniant Busnes sydd wedi bodloni archwiliadau neu'n cael eu harchwilio'*. Nododd swyddogion y sylwadau ac awgrymwyd i'r Pwyllgor restru eitem agenda yn dyfodol ar Ddilyniant Busnes er mwyn iddynt weld y cynlluniau llawn a'r risgiau coch/ambr.

Credai Aelodau'r Pwyllgor y gallai risgiau fod yn gyfleoedd. Dehonglwyd hyn hefyd fel methiant i gyflawni'r gwaith, yn enwedig o ran Gwasanaethau Cymdeithasol lle'r oedd yn amlwg nad oedd Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal yn gweithio. Felly a amlygwyd y rhain yn risgiau neu'n broblemau o ran rheoli? Sicrhaodd swyddogion y Pwyllgor fod risgiau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wahanol i faterion rheoli.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i meincnodi ynghyd â Dinasoedd Craidd eraill a phrin fod amrywiad yn y niferoedd, os o gwbl, na'r materion rhwng awdurdodau lleol eraill o ran y risgiau.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi'i atodi)

17 : BUDGET OUTTURN 2015/16

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Ian Allwood, Pennaeth Cyllid

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod ganddynt gyfle i ystyried y sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2015/16 a myfyrio am sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2016. Gwahoddwyd aelodau i ystyried sut y gallai'r wybodaeth a gyflwynwyd lywio rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2016/17.

Eglurodd y Cynghorydd Graham Hinchey i'r Pwyllgor fod y Cyngor mewn sefyllfa gadarnhaol gydag alldro refeniw o £1.7m. Roedd y pwysau cyllidebol a wynebai'r Cyngor yn gymhleth ac amlygwyd y pwysau hwn yn y Gwasanaethau Cymdeithasol lle na chyflawnwyd arbedion. Ar y cyfan roedd y ffigurau'n foddhaol gyda gwarged o ran casglu'r Dreth Gyngor.

Rhoddodd CS wybod i'r Pwyllgor fod paragraff 6 yr adroddiad yn anghywir a bod y Grant gan Lywodraeth Cymru'n gyfanswm o £3.4m. Yr £862,000 oedd taliad olaf 2014/15.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd aelodau'r pwyllgor yn bryderus ynghylch y gorwariant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a pham na ellid addasu'r gyllideb berthnasol yn unol â hynny i adlewyrchu'r materion.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd pam fod cynifer o Ysgolion Caerdydd yn cael mynd i ddiffyg cyllidebol.

Cydnabyddai swyddogion fod y gorwariant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan egluro bod rhesymau gwahanol am y costau hyn. Yn ystod y flwyddyn flaenorol roedd £5m o wariant a gymeradwywyd ac a reolwyd gan y Gwasanaethau Oedolion yn dda. Cydnabuwyd bod anawsterau wrth dangyflawni arbedion. Roedd Gwasanaethau Plant yn faes cymhlethach gyda'r gyllideb yn cael ei halinio i gefnogi gofynion y gwasanaeth. Nid oedd cyllideb sylfaen, ond roedd £950,000 wrth gefn i gynnal darpariaeth.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod arferion gwaith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu moderneiddio ac y byddai'r ymdrech hon yn sicrhau newid a chefnogi'r pwysau ar y gyllideb. Cyflwynwyd Gweithio Hyblyg ac roedd buddion o welliannau'r 6 mis diwethaf yn dod i'r amlwg.

O ran Ysgolion roedd y darlun yn gymysg. Roedd rhai ysgolion â chyllidebau cytbwys a'r Ysgolion â diffygion yn cael eu monitro'n agos. Cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion yn Llanfihangel, Glynderw, Cantonian a Willows a arweiniodd at ddiffyg mwy sylweddol yn eu cyllidebau nag ysgolion eraill. Roedd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith drwy'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ac roedd arwyddion cadarnhaol yn dod i'r amlwg yn Cantonian. Roedd yn hanfodol i'r Cyngor barhau i weithio mewn partneriaeth â Chyrff Llywodraethu unigol yr Ysgolion hyn i sicrhau bod y diffygion hyn yn cael eu rheoli am eu lawr dros gyfnod o amser.

Roedd Aelodau o'r Pwyllgor o'r farn y dylai fod gan yr Ysgol reolwyr ariannol ar waith yn rhoi cyngor i'r Pennaeth ar faterion ariannol. Mewn ymateb eglurodd Swyddogion fod hyfforddiant ar waith gyda sesiynau'n cael eu rhoi i Gyrff Llywodraethwyr â'r 8-9 ysgol sydd â Rheolwyr Busnes.

Cafodd yr Ysgolion Cynradd fudd o Reolwr Busnes a rennir ac roedd rhagor o waith yn mynd rhagddo i ddatblygu cymorth a chyngor ariannol.

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am y Grant Cytundeb Canlyniadau gydag adroddiad y gyllideb yn nodi y rhagdybiwyd derbyn 75% o'r grant. Roedd hyn ym mis 9, ac ar ôl cyhoeddi adroddiad y Cabinet ym mis Chwefror 2016 cafwyd gweddill y grant gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor wybod y prynwyd y Cymhorthdal Refeniw Tai. Roedd arbediad o £3m y flwyddyn i'r Cyfrif Refeniw Tai, a ariannwyd gan Gyfrif Busnes y Cyfrif Tai, wrthi'n cael ei dalu'n ôl. Roedd dyled y Cyfrif Refeniw Tai'n cael ei lledaenu dros 40 mlynedd.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi'i atodi)

18 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13 Medi 2016

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified